

SL(6)072 - Rheoliadau Priso ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn pennu'r rhagdybiaethau sydd i'w gwneud wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mewn cysylltiad â gwerth ardrethol eiddo annomestig. Defnyddir y gwerth ardrethol i gyfrifo atebolrwydd am ardrethi annomestig.

Effaith y Rheoliadau yw na fydd trethdalwyr eiddo annomestig yng Nghymru yr effeithir arnynt gan:

1. ymateb Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU i'r coronafeirws;
2. unrhyw ofyniad, cyngor neu ganllawiau mewn ymateb i'r coronafeirws gan unrhyw awdurdod cyhoeddus yn y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth y DU neu lywodraeth y tu allan i'r DU, neu
3. fesurau a gymerir i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch,

yn gallu dyfynnu'r materion hynny fel rhai sy'n achosi newid perthnasol mewn amgylchiadau at ddibenion apelio o ran gwerth ardrethol eiddo annomestig ar restrau ardrethu 2017.

Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Tachwedd 2021.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 1 Tachwedd 2021. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

"Bydd [yr offeryn statudol hwn]... yn dod i rym am 6pm ar y diwrnod y caiff ei osod. Y rhesymeg yw atal unrhyw risg bellach i arian cyhoeddus sy'n deillio o rai apelau ardrethi annomestig sy'n ymwneud â Covid-19."

O ystyried y brys a nodwyd, a'r cyfeiriad at "risg uniongyrchol" i gyllid cyhoeddus ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau, mae'r Pwyllgor yn gofyn am esboniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rheswm dros osod y Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021, gan nodi bod rheoliadau cyfatebol sy'n berthnasol i Loegr (sef Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (OS 2021/398)) wedi'u gosod gerbron Senedd y DU a daethant i rym ar 25 Mawrth 2021, sef dros saith mis cyn y Rheoliadau dan sylw.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn yr esboniad a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn y llythyr dyddiedig 1 Tachwedd 2021 y cyfeiriwyd ato uchod, sef y byddai darpariaethau'r Rheoliadau hyn yn cael eu disodli gan Fil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) Llywodraeth y DU, os caiff y Bil hwnnw ei basio.

Nodwn ymhellach fwriad Llywodraeth Cymru i ddirymu'r Rheoliadau hyn o dan yr amgylchiadau hynny, fel y nodir ym mharagraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau:

Gosodwyd Rheoliadau Prasio ar gyfer Ardrethu (Coronafeirws) (Lloegr) 2021 (O.S. 2021/398)) (Rheoliadau LIDU) gerbron Senedd y DU, a daethant i rym, ar 25 Mawrth. Cafodd Rheoliadau LIDU eu gosod heb drafod ymlaen llaw gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd yr amseru o ran gwneud Rheoliadau LIDU yn golygu nad oedd yn bosibl datblygu polisi neu reoliadau a oedd yn gymwys i Gymru ar unwaith, gan fod cyfnod cyn-etholiadol Senedd Cymru yn weithredol rhwng 25 Mawrth a 6 Mai.

Yn dilyn yr etholiad, cyflwynwyd Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwysu Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) Llywodraeth y DU (y Bil) ar 12 Mai, unwaith eto heb drafod ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru wrth ei gyflwyno.



Wedi hynny, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried gwahanol opsiynau er mwyn ymdrin â'r materion a grëir gan apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy'n ddibynnol ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19. Rhoddwyd y prif sylw i gynnwys darpariaethau a fyddai'n berthnasol i Gymru yn y Bil. Byddai'r darpariaethau hynny yn cael effaith ôl-weithredol, ac ni ellid cyflawni hynny gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf er mwyn gofyn am i'r darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru gael eu cynnwys yn y Bil. Cafwyd ymateb ar 3 Medi oddi wrth y Gweinidog dros Dwf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd, a oedd yn cadarnhau y byddai'r darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno ar ffurf gwelliant yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi.

Ar y cyd â datblygu darpariaethau i'w cynnwys yn y Bil, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod hefyd fod angen mynd ati i wneud rheoliadau er mwyn gwarchod cyllid cyhoeddus tra bo'r Bil yn teithio drwy Senedd y DU ac er mwyn lliniaru'r risg y byddai'r Bil yn methu.

Er na wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori wrth wneud Rheoliadau LIDU, roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol cynnal ymgynghoriad technegol ar ei rheoliadau drafft. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw am chwe wythnos rhwng 16 Awst a 27 Medi, a chyhoeddwyd crynodeb ar 21 Hydref.

Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad, lluniwyd fersiwn derfynol o'r rheoliadau drafft ac fe'u gosodwyd ar y dyddiad cynharaf posibl. Digwyddodd hyn ar 1 Tachwedd, gan yr ystyrid ei bod yn arfer gwael gosod y rheoliadau yr wythnos flaenorol, hy, yn ystod y toriad.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad pellach mewn perthynas â'i hymateb.

